Morys y gwynt

Trosolwg

Mae chwarae ym mhob math o dywydd yn hybu dealltwriaeth plant o fyd natur ac yn meithrin gwydnwch mewn gwahanol fathau o hinsawdd. Mae'r gwynt yn un o rymoedd byd natur, ac mae llawer o gyfleoedd dysgu gwych yn perthyn iddo.



Gweithgareddau

- Rhubanau: Casglwch amrywiaeth o wahanol fathau o ddefnydd i'r plant redeg gyda nhw yn y gwynt.
- Clychau gwynt / Barcutiaid swnllyd: Crynhowch ddetholiad o eitemau swnllyd i'w hongian gyda'i gilydd yn y gwynt.
- Teimlwch y gwynt ar eich wyneb.
- Rhedwch ar ôl swigod yn y gwynt.
- Gwrandewch ar y gwynt yn symud yn y coed a'r llwyni.
- Troellwch fel deilen yn y gwynt, rhedwch yn y gwynt a theimlwch ef ar eich wyneb.
- Crëwch hosan wynt.

Offer

- Amrywiaeth o rubanau
- Eitemau a fydd yn gwneud sŵn pan fyddant yn cael eu taro yn erbyn ei gilydd: llwyau, cwcis pren, brigau
- Swigod a gwialenni

Rhyngweithio allweddol

Anogwch y plant i ddefnyddio eu synhwyrau i archwilio, gan fodelu hynny.
Modelwch yr iaith i ddisgrifio'r gwynt: gwyllt, stormus, yn siffrwd, yn hyrddio, yn chwythu.

Deilliannau dysgu

- Chwarae actif – deall y tywydd, deall beth yw gwynt
- Archwilio corfforol a synhwyraidd – dysgu sut mae bod yn ddiogel mewn tywydd gwyntog
- Datblygu sgiliau cyfathrebu – dysgu iaith i ddisgrifio'r gwynt a'i effeithiau

Symud y dysgu yn ei flaen

- Anogwch y plant i wneud y synau y gallant eu clywed yn y gwynt: 'shhhhh' neu'wwwww'.
- Darllenwch lyfrau sy'n cynnwys y gwynt fel nodwedd – 'Dyn ni yn mynd i hela arth, Albert a'r Gwynt, Un Diwrnod Oer